

Mr Keith Bullivant
Cambian Healthcare Limited
3 Bunhill Row
Llundain
EC1Y 8YZ

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

22 Mai 2014

Annwyl Mr Bullivant,

Parthed: Ymweliad ag ysbyty Delfryn Lodge ar y 14eg a'r 15fed o Fai 2014

Fel yr ydych yn ymwybodol fe gwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Delfryn Lodge ar noson y 14eg a thrwy'r dydd ar y 15fed o Fai 2014. Yn ystod ein hymweliad fe amlygwyd meysydd nodedig ac mae'r rhain yn cynnwys yr isod:

- Roedd yr adborth gan gleifion a staff yn gadarnhaol mewn perthynas ag ansawdd ac amrywiaeth y bwyd sy'n cael ei weini.
- Roedd yr ystod o wybodaeth ar gyfer cleifion a oedd ar gael ar y ward yn dda, gan gynnwys cyfleoedd gwaith mewnol ar gyfer cleifion.
- Roedd ffeiliau staff wedi'u strwythuro'n dda ac yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol am gyflogaeth.
- Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Roedd ystafell y clinig yn drefnus ac roedd yn amlwg bod dull systematig ar waith.
- Roedd rhaglen gweithgareddau'n bodoli a oedd yn newid ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yn ennyn diddordeb y cleifion.

<p>y 12 mis diwethaf. Rhaid cyflwyno system Arfarnu gadarn ar gyfer yr holl staff.</p>	<p>Rheoliad 20 (2) (a)</p>
<p>4. Roedd nifer sylweddol o staff yn peidio â chael sesiynau goruchwylio'n rheolaidd. Mae'n rhaid i'r holl staff gael sesiynau goruchwylio yn rheolaidd.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 20 (1) (a)</p>
<p>5. Mae dau aelod o'r tîm amlddisgyblaethol (TA) yn gadael (seicolegydd a therapydd galwedigaethol) a bydd hyn yn amlwg yn cael effaith ar waith y TA. Mae'n rhaid hwyluso'r broses o benodi seicolegydd a therapydd galwedigaethol newydd fel mater o flaenoriaeth.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) ac 20 (1) (a)</p>
<p>6. Mae'r Clinigwr Cyfrifol (RC) yn gyfrifol am 28 o gleifion. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn argymhell y dylai'r Clinigwr Cyfrifol fod yn gyfrifol am 15 – 20 o gleifion. Felly mae'n rhaid adolygu'r gefnogaeth i rôl y Clinigwr Cyfrifol.</p>	<p>Rheoliad 18 (2) (a) a (b)</p>
<p>7. Dywedodd nifer o staff a gyfwelwyd yn ystod ein hymweliad fod morâl yr uned yn isel. Hefyd, dywedodd nifer o staff nad oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n rhaid adnabod a gweithredu strategaethau i wella morâl staff.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a)</p>
<p>8. Nid oedd yr hyfforddiant Rheoli Trais ac Ymosoddedd (MVA) yn gyfredol. Roedd 22 aelod o staff parhaol ac 11 aelod o staff cronfa nad oeddent wedi cael hyfforddiant MVA cyfredol. Mae'n rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c) a 19 (1) (a) a (b)</p>
<p>9. Nid oedd cofnodion arsylwi'n cael llofnod cymeradwyo'n rheolaidd gan y nyrs â gofal. I hybu trefniadau llywodraethu ac archwilio effeithiol mae'n rhaid i'r cofnodion gael eu llofnodi gan y nyrs â gofal ar ddiwedd pob sifft.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c)</p>
<p>10. Fe wnaeth adolygiad o 5 set o ddogfennaeth gofal adnabod y materion canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. Ar gyfer cleifion A, B ac C roedd diffyg cynllunio gofal o ran eu gwrthodiad i ymgysylltu â phrofion meddygol, er enghraifft profion gwaed. b. Nid oedd yr asesiad risg ar adeg derbyn ar gyfer claf D wedi'i sgorio. c. Ar gyfer claf B, nid oedd pob maes o fewn ei asesiad risg ar adeg derbyn wedi'i sgorio. Nid oedd yr adran fformiwleiddio a chanlyniadau rheoli wedi'i chwblhau yn yr asesiad risg ar 	

<p>adeg derbyn ac nid oedd wedi'i llofnodi.</p> <p>d. Roedd gan glaf B nifer uchel o gynlluniau gofal ar y ffeil, yr oedd rhai ohonynt yn anodd iawn i'w darllen gyda thalfyriadau ac iaith amhriodol ar gyfer cleifion.</p> <p>11. Ers i'r cynorthwydd therapyddion galwedigaethol adael, mae diffyg gweithgareddau ar benwythnosau. Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o ran gweithgareddau ac mae'n rhaid i'r rhain gael eu darparu.</p> <p>12. Roedd nifer o gleifion yn cwyno bod rhai aelodau o staff wedi siarad gyda hwy mewn modd amhriodol, gan sôn am regi yn ystod sgysiau a'u bod yn siarad gyda hwy fel pe baent yn blant. Fodd bynnag, ni wnaeth y cleifion enwi unrhyw aelodau penodol o staff. Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig gynnal ymchwiliad i briodoldeb rhai sylwadau gan staff a darparu adroddiad ar gyfer AGIC. Hefyd, rhaid i'r Darparwr Cofrestredig ddarparu hyfforddiant ar gyfathrebu effeithiol a phriodol rhwng staff a chleifion.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p> <p>Rheoliad 16 (1) (a) a (b) a 18 (1) (a) (2) (a) a (b)</p>
---	--

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl – Gweinyddu'r Ddeddf

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer 4 o'r cleifion dan gadwad a oedd yn cael gofal yn Delfryn Lodge ar adeg ein hymweliad. Canfuwyd y materion canlynol ac mae angen eu cynnwys yn eich cynllun gweithredu:

1. Roedd diffyg tystiolaeth o gynllunio ar gyfer rhyddhau.
2. Ni chanfuwyd y nodiadau ar y drafodaeth gyda'r ymgynghorai statudol a'r Meddyg Ail Farn Penodedig (SOAD).
3. Roedd y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMP) wedi methu â chofnodi perthynas y berthynas agosaf.

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **dydd Gwener 13 Mehefin 2014** a hwnnw'n nodi'r camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl faterion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion y sawl a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cam gweithredu. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun yn briodol bydd yn ofynnol i chi ddarparu diweddariadau misol ar gynnydd.

Yn dilyn derbyn y llythyr hwn mae'n ofynnol i'r Darparwr Cofrestredig wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y materion a nodir ac yn dilyn derbyn eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu, yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Gallwn gynnal ymweliad pellach i sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael yn briodol â'r materion uchod a byddwn yn cynnal ymweliadau mwy mynych os byddwn yn pryderu nad yw camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cyflawni'n brydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch am drafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Misheck Hakulandaba, y rheolwr cofrestredig yn Ysbyty Delfryn House a Delfryn Lodge.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'John Powell'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

cc – Mr Misheck Hakulandaba, Cambian Delfryn, Argoed Hall Lane, Yr Wyddgrug
CH7 6SQ,